media cymru

# Cwrs Arloesi ar gyfer Pobl Greadigol

## Media Cymru × PDR × Alacrity Foundation

Table of Contents


Trosolwg ........ 2
manylion y cwrs ........ 3
hygyrchedd ........ 3
dyddiadau allweddol ........ 3
cymhwysedd ........ 4
cais ........ 5

media cymru

## Trosolwg

Nod Media Cymru yw cefnogi twf sector cyfryngau ffyniannus Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu i ddarparu arloesedd rhagorol. Gyda chyfoeth o dalentau a rhwydweithiau, Caerdydd yw'r drydedd ganolfan gynhyrchu ffilm a theledu fwyaf yn y DU.

Rydyn ni am fuddsoddi mewn pobl, cwmnïau a phrosiectau sydd â'r potensial i fod cystal â chystadleuwyr byd-eang o ran eu sgiliau a'u huchelgais i arloesi.

Bydd y cwrs Arloesedd i Bobl Greadigol, a gynhelir dros bum niwrnod, yn helpu 20 o gyfranogwyr sy'n ystyried datblygu eu cynnig cyntaf am gyllid Ymchwil a Datblygu.

Yn gyffredinol, ni fydd cynnig Ymchwil a Datblygu cwbl barod gan y cyfranogwyr, a bydd y cwrs hwn yn eu galluogi i archwilio'r syniad o entrepreneuriaeth, lle bydd cysyniadau o fasnacheiddio a dyluniad arloesol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn cael blaenoriaeth.

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys tridiau gyda PDR, dau ddiwrnod gyda Sefydliad Alacrity a mynediad at borth dysgu digidol ar-lein.

Mae PDR yn ymgynghoriaeth dylunio ac ymchwil gymhwysol o'r radd flaenaf. Mae Sefydliad Alacrity yn sefydliad addysgol sy'n mentora'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid.

Ar ddiwedd y cwrs, bydd y cyfranogwyr yn deall sut i droi syniadau yn gynigion arloesol sy'n ymgorffori anghenion defnyddwyr.

Bydd y cwrs yn ymdrin â'r canlynol:

- Sut i gydweithio ag eraill.
- Prosesau ymchwil, datblygu ac arloesi.
- Datblygu busnes ac entrepreneuriaeth.
- Sut i greu a phrofi prototeipiau newydd.
- Pam mae dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn ffordd hygyrch o arloesi.

## Manylion y cwrs

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal rhwng 13 a 16 Ionawr 2025, gyda'r diwrnod olaf yn cael ei gynnal ar 24 Ionawr. Sylwch, bydd gofyn i chi gwblhau tasg ysgrifenedig rhwng 16 Ionawr a diwrnod olaf y cwrs. Bydd gofyn i chi fynychu pob diwrnod o'r cwrs.

Byddwn yn cefnogi eich amser ar y cwrs gyda thâl o £500 am y 5 diwrnod, yn ogystal â helpu gydag unrhyw gostau gofal plant/gofalwyr pellach.

Cynhelir y cwrs wyneb yn wyneb yn:
PDR
Excelsior Rd,
Caerdydd
CF14 3AT

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, ewch ati i e-bostio:
media.cymru@cardiff.ac.uk

## Hygyrchedd

Os oes gennych chi ofynion penodol a fyddai'n gwneud y broses ymgeisio'n fwy hygyrch (fel cyngor, cyfarwyddiadau neu gymorth darllen), neu os hoffech chi drafod fformatau eraill (fideo neu sain, naratif llais, ffont mawr, testun plaen neu iaith arall), anfonwch e-bost i media.cymru@cardiff.ac.uk neu ffonio 02922 511 434.

## Dyddiadau Allweddol

- 5 Tachwedd 2024 – Cyfnod ymgeisio yn agor
- 29 Tachwedd 2024, hanner dydd – Cyfnod ymgeisio yn cau (ni dderbynnir ceisiadau ar ôl yr amser hwn)
- 6 Rhagfyr 2024 – Hysbysu ymgeiswyr
- 13 Ionawr 2025 - Cwrs yn dechrau

## Cymhwysedd

Gyda phopeth a wnawn, rydyn ni’n awyddus i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl i sicrhau ein bod yn clywed y syniadau gorau.  Rydyn ni’n cydnabod bod buddsoddiad ym maes ymchwil a datblygu yn canolbwyntio’n rhy aml ar rwydweithiau nad ydynt yn cynrychioli ein cymuned ehangach o ran ei hamrywiaeth gymdeithasol a diwylliannol. Ein nod yw newid y patrwm hwnnw, ac rydyn ni’n gweithio i fynd i’r afael â’r anghydbwysedd strwythurol yn ein sefydliad ac yn y sector ehangach.  Rydyn ni’n gobeithio ysbrydoli llwybrau ymchwil a datblygu trawsnewidiol a chynhwysol a fydd yn herio ffyrdd presennol o gynhyrchu a meddwl.

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer pobl o bob cefndir neu ar wahanol gamau o’u bywyd sy'n datblygu neu'n ystyried datblygu gyrfa yn y Diwydiannau Creadigol.

**Cymhwysedd:**

- Rwy’n byw yng Nghymru.
- Does gen i ddim/mae gen i ychydig o brofiad Ymchwil a Datblygu yn y Diwydiannau Creadigol.
- Rwy’n gweithio yn y diwydiannau creadigol ar hyn o bryd / rwyf ar ddechrau fy ngyrfa neu’n ystyried dechrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol.
- Rwyf ar gael i fynychu pum diwrnod yng Nghaerdydd ar y dyddiadau canlynol: 13 – 16 a 24 Ionawr 2025.

**Dyma beth rydyn ni’n chwilio amdano:**

- Parodrwydd i ddysgu ac i gydweithio
- Awydd i gyfrannu at y diwydiannau creadigol
- Awydd i herio’r sefyllfa bresennol
- Diddordeb mewn darganfod mwy am sut i ddatblygu syniadau
- Brwdfrydedd dros fod yn fasnachol ymwybodol, yn amgylcheddol gynaliadwy ac yn gynhwysol yn eich ymarfer.

## Cais

**Meini Prawf Asesu**

Bydd cynigion eich cais yn cael eu hasesu mewn tri maes allweddol:

1. **Eich Cymhelliant**

- Pam y byddai astudio'r cwrs hwn yn bwysig i chi
- Beth allwch chi gynnig i'r cwrs

2. **Eich Dyheadau**

- Pa wybodaeth a sgiliau yr hoffech eu meithrin fel rhan o'r cwrs
- Sut byddai'r hyn a ddysgwch yn cefnogi eich dyheadau gyrfaol yn y dyfodol

3. **Eich Diddordeb yn y Diwydiannau Creadigol**

- Profiadau blaenorol a diddordeb yn y Diwydiannau Creadigol